

**CAIS I GYMERADWYO MANGRE FEL LLEOLIAD AR GYFER
PRIODASAU YN UNOL AG ADRAN 26(1)(bb) DEDDF PRIODI
1949 A SEREMONIAU PARTNERIAETH SIFIL YN UNOL AG
ADRAN 6 (3A)(a) DEDDF PARTNERIAETHAU SIFIL 2004**



Rhaid i berchennog neu ymddiriedolwyr mangre gyflwyno'r cais hwn. Os bydd yn llwyddiannus, yr ymgeisydd fydd deiliad y gymeradwyaeth. Ar ôl ei gwblhau, dylid ei anfon at Swyddog Priodol Materion Cofrestru Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â'r ffi briodol (Atodiad A) sy'n daladwy i 'Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr'.

1. Rwy'n gwneud cais i'r mangre a enwir yn eitem 2 dros y dudalen gael ei gymeradwyo i weinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil.
2. Atodaf 3 chopi o gynllun o'r mangre sy'n dangos yr ystafell(oedd) lle bwriedir cynnal priodasau a seremonïau partneriaeth sifil.
3. Rwy'n deall:
 - a) y caiff y mangre ei archwilio am ei addasrwydd cyn rhoi cymeradwyaeth ac, os yw'r cais hwn yn llwyddiannus, y gellid ei archwilio eto;
 - b) y rhoddir gwybod i'r cyhoedd am y cais trwy hysbysiad mewn papur newydd gyda chyfnod o dair wythnos i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau;
 - c) y bydd cymeradwyaeth, os y'i rhoddir, yn para tair blynedd, os na chaiff ei diddymu; a
 - d) rhaid i'r mangre fodloni'r awdurdod lleol o ran rhagofalon tân ac unrhyw ddarpariaeth iechyd a diogelwch.
4. Rwy'n datgan:
 - e) fy mod i wedi darllen a deall yr wybodaeth a geir yn y ffurflen hon ac yn atodiadau A, B a C;
 - f) nad yw'r adeilad yn swyddfa gofrestru neu fangre crefyddol; ac
 - g) fy mod i wedi ymgynghori â'r awdurdod cynllunio i gael gwybod a oes angen caniatâd cynllunio ac rwy'n atodi tystiolaeth ei fod yn fodlon i'r mangre gael ei ddefnyddio ar gyfer priodasau a seremonïau partneriaeth sifil.
5. Rwy'n datgan ymhellach, os rhoddir cymeradwyaeth:
 - h) y bydd y mangre ar gael yn rheolaidd at ddefnydd y cyhoedd naill ai i weinyddu priodasau neu gofrestru partneriaethau sifil; ac,
 - i) y byddaf yn cydymffurfio â'r amodau safonol (Atodiad A) ac unrhyw amodau lleol sydd ynghlwm wrth roi cymeradwyaeth.

1. Enwau llawn a chyfeiriad preifat yr ymgeisydd (Os caiff y cais ei gyflwyno gan gwmni cyfyngedig, rhwch gyfeiriad y swyddfa gofrestru ac os yw'n wahanol, nodwch brif gyfeiriad masnachu'r cwmni hefyd)	
2. Enw, cyfeiriad post a rhif ffôn y mangre sy'n destun y cais hwn.	
3. Disgrifiwch natur y mangre yng nghwestiwn 2 (e.e. gwesty, plasty, llety dinesig) a'i brif ddefnydd ac unrhyw ddefnydd arall sy'n cael ei wneud ohono'n rheolaidd.	
4. A yw'r person neu'r cwmni a enwyd yn yr ateb i gwestiwn 1 yn feddiannydd y mangre?	
5. Os yw'r ateb i gwestiwn 4 uchod yn negyddol ac mae meddiannydd arall, nodwch yr enw(au) a'r cyfeiriad(au).	
6. Nodwch yma uchafswm y bobl a ganiateir i feddiannu'r ystafell neu'r ystafelloedd y cyflwynwyd cais ar ei chyfer/ar eu cyfer: dylai hyn fod yn seiliedig ar yr asesiad risg diogelwch tân a gynhaliwyd gan y person cyfrifol o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Nodwch enw'r ystafell (os yw'n briodol).	
7. A oes unrhyw drwydded gan y mangre ar hyn o bryd sy'n awdurdodi ei ddefnydd at ddibenion adloniant cyhoeddus neu ddibenion tebyg? Os felly, atodwch gopi.	
8. Os yw enw'ch cwmni eisoes wedi cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, nodwch ef yma.	

Llofnod yr ymgeisydd: _____ Dyddiad:

Diddordeb yn y mangre: _____

Cyfeiriad gohebu a rhif ffôn cyswllt:

NODIADAU AM Y GOFYNION CYN GELLIR RHOI CYMERADWYAETH

Rhaid cyflwyno'r ffi na chaiff ei dychwelyd gyda'r cais i Swyddog Priodol Materion Cofrestru Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rhaid i berchennog neu ymddiriedolwr y mangre gyflwyno'r cais hwn. Os yw'n cael ei gyflwyno ar ran cwmni cyfyngedig, dylid anfon datganiad ar wahân o enwau a chyfeiriadau'r holl gyfarwyddwyr.

Rhaid i'r mangre fodloni'r gofynion safonol canlynol yn Atodlen 1 y Rheoliadau:

1. O ystyried ei brif ddefnydd, ei leoliad, ei adeiladwaith a'i gyflwr, mae'n rhaid i'r mangre, ym marn yr awdurdod, fod yn lleoliad gweddus ac urddasol i'r seremonïau.
2. Rhaid i'r mangre fod ar gael yn rheolaidd at ddefnydd y cyhoedd naill ai i weinyddu priodasau neu gofrestru (sefydlu) partneriaethau sifil.
3. Rhaid bod gan y mangre y fath ragofalon tân sy'n ofyniad rhesymol gan yr awdurdod, wedi ymgynghori â'r awdurdod tân/tân ac achub, a'r fath ddarpariaeth resymol arall ar gyfer iechyd a diogelwch y bobl sy'n gweithio yn y mangre neu'n ymweld ag sy'n briodol yn nhyb yr awdurdod.
4. Ni all y mangre fod yn:
 - (a) Fangre crefyddol fel y'i diffinnir yn adran 6(2) Deddf Partneriaeth Sifil 2003,*
 - (b) Swyddfa gofrestru, ond nid yw'r paragraff hwn yn berthnasol i fangre sy'n cynnwys swyddfa gofrestru ar yr amod nad yw'r ystafell sy'n aros am gymeradwyaeth yr un ystafell a ddefnyddir fel y swyddfa gofrestru.
5. Rhaid gallu adnabod yr ystafell neu'r ystafelloedd lle cynhelir y seremonïau (priodas neu bartneriaeth sifil), os rhoddir cymeradwyaeth, wrth y disgrifiad fel rhan neilltuol o'r mangre.

**Ystyr "mangre crefyddol" yw mangre a ddefnyddir at ddibenion crefyddol yn unig neu'n bennaf, neu sydd wedi cael ei ddefnyddio fel hynny ac nad yw wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill yn unig neu'n bennaf ers hynny.*

Wrth ystyried addaswydd mangre fel lleoliad, bydd yr awdurdod yn ystyried y canllawiau canlynol gan y Cofrestrydd Cyffredinol:

1. Bwriedir i'r deddfau sy'n ymwneud â "mangreoedd cymeradwy" ganiatáu i seremonïau gael eu cynnal yn rheolaidd mewn gwestai, plastai, neuaddau dinesig a mangreoedd tebyg heb amharu ar egwyddorion sylfaenol cyfraith Cymru a Lloegr a bwriad y Senedd i gynnal urddas yr achlysur.
2. Diffinnir y term "mangre" yn Rheoliad 2(1) fel adeiledd parhaol sefydlog sy'n cynnwys o leiaf un ystafell neu unrhyw gwch neu fath o gwch sydd wedi'i angori'n barhaol. Ni fyddai unrhyw fangre y tu hwnt i'r diffiniad hwn, megis yr awyr agored, pabell, pabell fawr neu unrhyw adeiledd dros dro arall a'r rhan fwyaf o ddulliau trafniadaeth, fod yn gymwys i'w gymeradwyo. Yn ogystal, ceir gofynion yn Atodlen 1 y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir rhoi cymeradwyaeth.
3. Rhaid i'r mangre fod yn lleoliad gweddus ac urddasol i'r seremoni, sy'n gorfod cael ei chynnal mewn rhan neilltuol o'r mangre hwnnw y gellir ei adnabod. Petai prif ddefnydd adeilad yn gallu pardduo neu ddwyn anfri ar seremonïau, byddai hynny'n ei wneud yn anaddas.
4. Rhaid nad yw'r mangre'n fangre crefyddol fel y'i diffinnir gan adran 6(2) Deddf Partneriaeth Sifil 2004. Mangre a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf at ddibenion crefyddol yw hwn nad yw wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill wedi hynny. Byddai adeilad sydd wedi'i ardystio ar gyfer addoli cyhoeddus yn perthyn i'r categori hwn, fel y byddai capel mewn plasty neu hosbis. Fodd bynnag, gallai mangre lefel mae grŵp crefyddol yn cwrdd yn achlysurol fod yn addas petai'r meini prawf yn cael eu bodloni.
5. Rhaid nad yw'r mangre'n unrhyw ran o swyddfa gofrestru ar y cynllun a gyflwynir gan yr awdurdod a'i gymeradwyo gan y Cofrestrydd Cyffredinol o dan Deddf Gwasanaethau Cofrestru 1953. Gellir cymeradwyo unrhyw ystafelloedd yn yr un mangre â'r swyddfa gofrestru nad ydynt ar y cynllun hwn, e.e. siambr gyngor yn yr un neuadd dref, ond ni ellir cymeradwyo ystafell mewn swyddfa gofrestru. Fodd bynnag, gall awdurdod godi ffi am fynd i briodas neu seremoni partneriaeth sifil ar fangre cymeradwy ar yr un lefel â'r ffi ragnodedig ar gyfer priodas neu bartneriaeth sifil mewn swyddfa gofrestru.
6. Gellir defnyddio'r mangre i weinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil ond mae'n rhaid iddo fod ar gael yn rheolaidd at ddefnydd y cyhoedd at y naill ddiben neu'r llall. Gallai deiliad cymeradwyaeth benderfynu bod y mangre ar gael ar gyfer priodasau neu seremonïau partneriaeth sifil yn unig ac nid i'r ddau. Os oes rhywun yn anhapus oherwydd nad yw mangre cymeradwy ar gael i'r ddau, dylid ei hysbysu nad oes modd gorfodi hyn yn ôl deddfwriaeth priodasau a phartneriaethau sifil. Nid oes gan yr awdurdod unrhyw bwerau i ymyrryd ac mae'n fater y byddai'n rhaid i'r person dan sylw ei godi gyda deiliad y gymeradwyaeth.
7. Bydd y gofyniad bod rhaid i'r mangre fod ar gael yn rheolaidd at ddefnydd gan y cyhoedd yn atal tŷ preifat rhag cael ei gymeradwyo.

YR AMODAU I'W HATODI WRTH GYMERADWYAETH A RODDIR

Rhaid i'r awdurdod atodi'r amodau safonol canlynol o Atodlen 2 y Rheoliadau wrth unrhyw gymeradwyaeth. Ystyr seremoni yw gweinyddu priodas neu gofrestru partneriaeth sifil ac nid yw'n cyfeirio at unrhyw weithgareddau eraill yn y mangre.

1. Rhaid i deiliad y gymeradwyaeth sicrhau bod unigolyn cyfrifol ar gael trwy'r amser i sicrhau y cydymffurfir â'r amodau hyn ("y person cyfrifol") a bod galwedigaeth y person cyfrifol, ei reng, lefel ei gyfrifoldeb o ran y mangre, neu ffactorau eraill (ei "gymhwysedd"), yn dangos ei fod mewn sefyllfa i sicrhau y cydymffurfir â'r amodau hyn.
2. Bydd y person cyfrifol neu, yn ei absenoldeb, ddirprwy â chymhwyster priodol sydd wedi'i benodi ganddo, ar gael yn y mangre am o leiaf awr cyn ac yn ystod pob seremoni.
3. Rhaid i'r deiliad hysbysu'r awdurdod:
 - (a) am ei enw a'i gyfeiriad yn syth ar ôl derbyn cymeradwyaeth o dan Reoliad 7(2), ac
 - (b) am enw, cyfeiriad a chymhwysterau'r person cyfrifol yn syth ar ôl penodi person cyfrifol newydd.
4. Rhaid i'r deiliad hysbysu'r awdurdod ar unwaith am unrhyw newid i unrhyw un neu rai o'r canlynol:
 - (c) cynllun y mangre, fel a ddangosir ar y cynllun a gyflwynwyd ynghyd â'r cais cymeradwy, neu yn nefnydd y mangre,
 - (d) enw a chyfeiriad post llawn y mangre cymeradwy,
 - (e) disgrifiad yr ystafell neu'r ystafelloedd lle cynhelir seremonïau,
 - (f) enw a chyfeiriad deiliad y gymeradwyaeth, ac
 - (g) Enw, cyfeiriad neu gymhwyster y person cyfrifol.
5. Rhaid bod y mangre cymeradwy ar gael ar bob adeg resymol i'w archwilio gan yr awdurdod.
6. Rhaid arddangos hysbysiad addas sy'n nodi bod y mangre wedi'i gymeradwyo i gynnal y seremoni ac sy'n dangos ac yn rhoi cyfarwyddiadau i'r ystafell lle cynhelir y seremoni ym mhob mynedfa gyhoeddus i'r mangre am awr cyn y seremoni ac yn ystod y digwyddiad.
7. Ni ellir gwerthu neu fwyta/yfed unrhyw fwyd neu ddiodydd yn yr ystafell lle cynhelir y seremoni am awr cyn neu yn ystod y seremoni.
8. Rhaid i bob seremoni gael ei chynnal mewn ystafell a nodwyd fel yr un a fyddai'n cael ei defnyddio at y diben hwnnw ar y cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais cymeradwy.

9. Rhaid i'r ystafell lle cynhelir seremoni fod ar wahân i unrhyw weithgaredd arall yn y mangre ar adeg y seremoni.
10. Rhaid i drefniadau a chynnwys y seremoni gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan gofrestrydd arolygol yr ardal lle saif y mangre cymeradwy.
11. Ni ddylai unrhyw seremoni a gynhelir mewn mangre cymeradwy fod yn grefyddol ei natur.

Yn benodol, ni fydd y seremoni yn

- (a) cynnwys darnau o wasanaeth priodas crefyddol awdurdodedig neu o destunau crefyddol sanctaidd;
- (b) cael ei harwain gan weinidog crefyddol neu arweinydd crefyddol arall;
- (c) cynnwys defod crefyddol neu gyfres o ddefodau;
- (d) cynnwys emynau neu lafarganau crefyddol eraill; neu
- (e) cynnwys unrhyw fath o addoli.

Ond gall y seremoni gynnwys darlleniadau, caneuon neu gerddoriaeth sy'n cynnwys cyfeiriad achlysurol at dduw mewn cyd-destun nad yw'n grefyddol yn ei hanfod.

At y diben hwn, dylai unrhyw ddeunydd a ddefnyddir i gyflwyno neu gloi unrhyw saib rhwng rhannau o'r seremoni gael eu trin fel petai'n rhan o'r seremoni.

12. Rhaid caniatáu mynediad cyhoeddus i unrhyw seremoni mewn mangre cymeradwy heb godi ffi.
13. Gall unrhyw gyfeiriad at gymeradwyo mangre ar unrhyw arwydd neu hysbysiad, neu ar unrhyw ddeunydd ysgrifennu neu gyhoeddiad neu mewn unrhyw hysbysiad, nodi bod y mangre wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod fel lleoliad i gynnal priodasau yn unol ag Adran 26(1)(bb) Deddf Priodi 1949 a sefydlu partneriaethau sifil o dan Adran 63(a)(a) Deddf Partneriaeth Sifil 2004, ond ni fydd yn nodi nac yn awgrymu bod yr awdurdod, y Cofrestrydd Cyffredinol neu unrhyw swyddogion neu gyflogeion y naill neu'r llall yn argymhell y mangre neu ei gyfleusterau mewn unrhyw ffordd.
14. Os caiff enw'r mangre ei newid ar ôl cyflwyno'r dystysgrif priodasau neu'r ddogfen partneriaethau sifil, ond cyn y seremoni, bydd enw blaenorol y mangre cymeradwy a nodwyd yn y dystysgrif priodasau neu'r ddogfen partneriaethau sifil yn parhau'n ddilys trwy gydol y seremoni.

AMODAU LLEOL

Yn ôl y ddeddfwriaeth, mae gan yr Awdurdod Trwyddedu hawl i osod amodau lleol sy'n rhesymol yn ei dyb ef. Ystyrir bod yr amodau canlynol yn briodol:

Rhaid bod gan fangreoedd y canlynol:

1. Mynediad boddhaol i'r anabl.
2. Byrddau a chadeiriau digonol i swyddogion cofrestru a phob parti yn y seremoni, gan gynnwys seddi ar gyfer swyddogion a'r rhan fwyaf o'r gwesteion.
3. Ystafell ychwanegol i gyfweld â'r partion cyn y seremoni.
4. Cyfleusterau toiled.
5. Lleoedd parcio i staff cofrestru
6. Dim sŵn o weithgareddau eraill.
7. Caniatâd ymlaen llaw gan y Cofrestrydd Arolygol i chwarae unrhyw gerddoriaeth cyn neu yn ystod y seremoni.
8. Rhaid i'r deiliad hysbysu'r awdurdod am unrhyw newid arfaethedig i gynllun y mangre o'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais cymeradwy.

Mae ymgeisydd sy'n anhapus oherwydd bod amodau pellach wedi cael eu hychwanegu'n gallu ceisio adolygiad o'r amodau hynny gan yr awdurdod lleol.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

ADNEWYDDU AC ADFER

9. Gall y deiliad gyflwyno cais i adnewyddu cymeradwyaeth pan fo llai na deuddeg mis ar ôl i'r gymeradwyaeth bresennol. Bydd cais am adnewyddu a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn yn estyn y gymeradwyaeth bresennol nes ymdrinnir â'r cais. Bydd adnewyddiad yn para o'r dyddiad y daw'r gymeradwyaeth bresennol i ben.
10. Os yw'r deiliad yn methu cyflwyno'r cais am adnewyddu cyn i'r dyddiad dod i ben ac mae'r gymeradwyaeth yn dod i ben, caiff ei hadfer gan gais am adnewyddu a gyflwynir o fewn mis i'r dyddiad dod i ben a bydd yn para nes ymdrinnir â'r cais.

DIDDYMU

11. Gall yr awdurdod ddiddymu cymeradwyaeth os yw'n fodlon, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y deiliad, fod defnydd neu adeiledd y mangre wedi newid fel na ellir bodloni unrhyw un o'r gofynion safonol neu leol neu os yw'r deiliad wedi methu cydymffurfio ag un neu fwy o'r amodau safonol neu leol sydd ynghlwm wrth y gymeradwyaeth.
12. Gall y Cofrestrydd Cyffredinol orchymyn yr awdurdod i ddiddymu cymeradwyaeth os yw'r gyfraith sy'n ymwneud â phriodasau neu bartneriaethau sifil yn y mangre cymeradwy, yn ei farn ef, wedi cael ei thorri, a hynny ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y deiliad. Ni chaiff hyn ei adolygu gan yr awdurdod.
13. Pan gaiff cymeradwyaeth ei diddymu, mae'n ofyniad y rheoliadau i'r cyn-ddeiliad hysbysu unrhyw gyplau oedd wedi trefnu i briodi neu gofrestru partneriaeth sifil yn y mangre.

ADOLYGIADAU

14. Gall ymgeisydd geisio adolygiad gan yr awdurdod lleol o'i benderfyniad i wrthod rhoi cymeradwyaeth, atodi amodau lleol, gwrthod adnewyddu cymeradwyaeth neu ddiddymu cymeradwyaeth.
15. Rhaid i'r adolygiad gael ei gynnal gan swyddog, pwyllgor neu is-bwyllgor gwahanol i'r un a wnaeth y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn. Gall y panel adolygu gadarnhau'r penderfyniad, ei ddiddymu neu ei amrywio trwy osod amodau newydd neu ychwanegol.
16. Gall yr awdurdod godi ffi ychwanegol am adolygu ei benderfyniad i wrthod rhoi cymeradwyaeth, atodi amodau lleol neu wrthod adnewyddu cymeradwyaeth.

COFRESTRU

17. Bydd yr awdurdod yn cadw manylion mangreoedd cymeradwy i'w harchwilio gan y cyhoedd a chaiff y rhain eu copïo'n lleol a'u hanfon at y Cofrestrydd Cyffredinol a fydd yn hysbysu amdanynt.